**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET**
Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Llun, 18 Rhagfyr 2023 am 10.30 am/

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Cabinet canlynol yn bresennol

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd B Harris
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd M Norris

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oed yn bresennol

Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd A O Rogers
Mr C Jones

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Dirprwy Brif Weithredwr ac Chyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo’r Cyngor
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau’r Gymuned
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr S Williams, Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Mr D James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Mr N Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Ms R Hope, Pennaeth Dros Dro – Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Ms A Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant

### 83 Datgan Buddiant

Datganodd y Dirprwy Arweinydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber y buddiant personol canlynol mewn perthynas ag eitem 4 ar yr agenda - Ymgynghoriad ar y cynigion i ad-drefnu darpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu prif ffrwd - anghenion dysgu ychwanegol yn RhCT: “Rydw i'n Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn ac yn Llywodraethwr Dros Dro yn Ysgol Gynradd

Gymraeg Awel Taf."

## 84 Cofnodion

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2023 yn rhai cywir.

## 85 Cynnig i gau Ysgol Gynradd Rhigos a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant adroddiad sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am ganlyniad yr ymgynghoriad diweddar mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Rhigos a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun erbyn mis Medi 2024.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg ar y cyfle i ddiolch i'r rhai a ymatebodd i'r broses ymgynghori, yn enwedig y bobl ifainc. Eglurodd yr Aelod o'r Cabinet bod yr holl gyflwyniadau wedi'u hadolygu'n fanwl gan y Pwyllgor. Aeth ati i gydnabod bod yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn cyfleu angerdd amlwg gan gymuned Rhigos dros ddyfodol ei phobl ifainc. Daeth yr Aelod o'r Cabinet â'i gyflwyniad cychwynnol i ben drwy ddatgan bod y Cabinet yn rhannu'r un angerdd am sicrhau'r canlyniadau addysgol, y rhagolygon a'r cyfleusterau gorau.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod yr adroddiad wedi dangos y byddai'n heriol cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru o'r adeilad presennol a gofynnodd i'r Cyfarwyddwr roi rhagor o fanylion am hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod Ysgol Gynradd Hirwaun yn un o Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif, sy'n golygu bod yr amgylchedd dysgu wedi'i ddatblygu'n addas i fodloni gofynion digidol a thechnoleg o ran Dysgu yn yr 21$^{ain}$ Ganrif. Ychwanegwyd bod gan yr ysgol hefyd nodweddion dylunio penodol, gan gynnwys ardaloedd awyr agored ar gyfer dysgu strwythuredig; a'i fod yn cynnwys gofod mawr y mae modd i staff yr ysgol wneud defnydd amrywiol ohono.

Gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet am gadarnhad mewn perthynas â statws gwledig yr ysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Cabinet fod Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 yn cynnwys rhestr o ysgolion gwledig, gan nodi bod Dosbarthiad Gwledig Trefol y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i ddefnyddio i ddynodi ysgolion gwledig. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr nad oedd unrhyw ysgolion yn RhCT ar y rhestr o ysgolion gwledig gan nad oes unrhyw ysgolion sy'n bodloni'r meini prawf penodol. Eglurodd y Cyfarwyddwr, er bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dynodi Hirwaun a Rhigos yn ei dosbarthiad gwledig, nad oedd yr un o'r ddau le'n bodloni'r meini prawf penodedig i'w cynnwys yn y rhestr a grybwyllwyd uchod.

Aeth yr Arweinydd ati i gydnabod yr ymatebion gan nodi bod Rhigos yn ysgol dda gyda chanlyniadau cadarnhaol ond siaradodd am y mater sylfaenol, sef y gostyngiad yn nifer y disgyblion, a holodd pa mor drylwyr yw'r data. Gan gyfeirio at ymateb i'r ymgynghoriad, holodd yr Arweinydd a fu gostyngiad yn niferoedd disgyblion yr ysgol ers dechrau'r ymgynghoriad, ac a ellid priodoli hynny i

ansicrwydd o ran yr ysgol a'r cynnig sydd gerbron yr Aelodau. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod 57 o ddisgyblion yn yr ysgol ar ddechrau'r ymgynghoriad a bod nifer y disgyblion statudol wedi gostwng o 51 i 49 ers hynny. Eglurodd y Cyfarwyddwr fod y newid oherwydd bod disgyblion wedi symud i'r ysgol Gymraeg ym Mhenderyn. O ran sut y rhagamcanir niferoedd, dywedodd y Cyfarwyddwr eu bod nhw wedi'u cyfrifo yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a'u bod yn seiliedig ar ddata genedigaethau byw ar gyfer yr ardal. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod rhagamcanion amcangyfrifedig yn nodi mai dim ond 37 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol fyddai yn Ysgol Gynradd y Rhigos yn 2027-28, er y cydnabuwyd mai amcangyfrif oedd hwn a bod teuluoedd yn symud i mewn ac allan o'r ardal leol.

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r Pwyllgor Craffu am ei gyfraniad gwerthfawr. Nododd y Dirprwy Arweinydd y pryderon a godwyd o'r ymgynghoriad a dywedodd ei bod hi'n cydymdeimlo â'r rhain, gan gydnabod bod modd i newid beri gofid. Soniodd y Dirprwy Arweinydd am newid tebyg yn ei ward hi, gan gydnabod y pryderon a godwyd gan rieni a chynhalwyr, ond soniodd am waith caled swyddogion a'r corff llywodraethu i sicrhau bod y ddarpariaeth orau ar gael i'r bobl ifainc.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol fod y Pwyllgor Craffu wedi holi am ddefnydd yr adeilad yn y dyfodol, a gofynnodd a oedd y sylwadau wedi cael sylw, pe byddai'r cynigion yn cael eu cefnogi. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai angen cynnal ymgynghoriad ar wahân ar gyfer yr ystyriaethau yma, ond y gallai'r Cyngor weithio gyda'r gymuned i nodi unrhyw opsiynau dichonadwy a chynaliadwy ar gyfer grwpiau cymunedol, yn ogystal â chyfleoedd posibl i wneud cais am arian. Hyd yma, dydy'r gymuned ddim wedi cyflwyno unrhyw sylwadau am ddefnyddio'r adeilad yn y dyfodol.

Wrth ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a thrafodaethau'r Pwyllgor Craffu, nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden fod yr effaith ôl-troed carbon posibl a'r defnydd o gludiant o'r cartref i'r ysgol gan rieni wedi'i godi yn fater pryder. Holodd yr Aelod Cabinet a oedd yr ôl troed carbon wedi'i ystyried, yn enwedig o ran y ffaith bod Hirwaun yn Ysgol yr 21ain Ganrif. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod gan ddyluniad a deunyddiau'r adeilad modern yn Ysgol Gynradd Hirwaun sgôr A o ran EPC, a'i fod wedi'i adeiladu i fod yn fwy ynni-effeithlon, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar gostau rhedeg cyffredinol yr ysgol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod gan Ysgol Gynradd Hirwaun hefyd gyfleusterau gwefru cerbydau trydan ar y safle, a fyddai'n cyfrannu at gyflawni ymrwymiadau hinsawdd y Cyngor. Dywedodd y Cyfarwyddwr nad oedd Ysgol Gynradd y Rhigos, oherwydd ei hoedran, wedi'i hadeiladu i fod yn ynni-effeithlon.

Holodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau pa gymorth fyddai'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyfnod pontio pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt. Aeth y Cyfarwyddwr ati i gydnabod bod y cynigion yn hynod emosiynol o safbwynt plant a phobl ifainc, y staff a'r gymuned. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr y Cabinet y byddai sicrhau cyfnod pontio di-dor yn flaenoriaeth pe byddai'r cynigion yn cael eu cymeradwyo, a dywedodd fod gan swyddogion lawer o brofiad o gyflawni hyn yn effeithiol. Eglurodd y byddai dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn cael ei fabwysiadu ar gyfer y disgyblion mwyaf agored i niwed er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Byddai cyfle i bob disgybl gymryd rhan mewn gweithgareddau ac achlysuron pontio, fel

prosiectau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, prosiectau chwaraeon a phrosiectau cerddorol. Nod hyn fydd cynnig rhagor o gyfleoedd i ryngweithio, a meithrin cydberthnasau a phartneriaethau. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai lleihau'r risg o bryder i blant sy'n symud ysgol yn fater hollbwysig.

Gyda chytundeb yr Arweinydd, rhoddwyd caniatâd i'r Aelodau canlynol, sydd ddim yn Aelodau o'r Pwyllgor, annerch y Cabinet:

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Rogers
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K. Morgan

Gyda chytundeb yr Arweinydd, rhoddwyd caniatâd i'r aelod canlynol o'r cyhoedd annerch y Cabinet:

- Ms M Evans – Cadeirydd y Llywodraethwyr

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg i'r Aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor ac i Gadeirydd y Llywodraethwyr am eu cyflwyniadau yn y cyfarfod. Ar ôl ystyried y sylwadau yn y cyfarfod ac ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd, roedd yr Aelod o'r Cabinet o'r farn bod y cynigion a oedd gerbron yr Aelodau er budd gorau'r disgyblion. Gan gyfeirio at y gostyngiad a ragwelir yn niferoedd Ysgol Gynradd y Rhigos, nododd yr Aelod o'r Cabinet ei bryderon am hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol, gan gyfeirio at oedran yr adeilad. Roedd yr Aelodau o'r Cabinet o'r farn bod ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn galonogol ac yn cydnabod rhesymeg yr Awdurdod Lleol y tu ôl i'r cynigion; ac roedd hefyd yn falch o'r cyfleusterau modern a'r cyfleoedd y bydd modd i ddisgyblion gael budd ohonyn nhw yn Ysgol Gynradd Hirwaun. O ganlyniad i hyn, roedd yr Aelod o'r Cabinet yn cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a chyfraniadau, roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu yn cytuno mai bwrw ymlaen â'r cynigion fyddai'r ffordd orau ymlaen.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad;
2. Nodi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Ymgynghori, sef Atodiad A i'r Adroddiad yma i'r Cabinet, sy'n cynnwys crynodeb o'r ohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys yr ymateb llawn gan Estyn, adborth a dderbyniwyd o'r arolwg ar-lein, a nodiadau o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd;
3. Nodi adborth y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant o'i gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2023, a gafodd ei ddarparu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu; a
4. Symud y cynigion ymlaen i gam nesaf y broses ymgynghori trwy gyhoeddi Hysbysiad Statudol priodol a fydd yn sbarduno dechrau'r Cyfnod Gwrthwynebu.

Noder: Cyn y cyfarfod, dosbarthwyd llythyr i Aelodau'r Cabinet oddi wrth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ar ran y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant a gyfarfu ar 14 Rhagfyr 2023 i rag-graffu ar yr adroddiad yma i'r Cabinet.

**86** **Ymgynghoriad ar y cynigion i ad-drefnu Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu prif ffrwd - Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant yr adroddiad, a roddodd wybod i'r Aelodau am ganlyniad cyhoeddiad yr Hysbysiad Statudol ynglŷn â'r cynnig i ad-drefnu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg ar y cyfle i ddiolch i bawb a gyflwynodd ymateb i'r ymgynghoriad. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai'r cynnig gerbron yr Aelodau yn helpu'r Awdurdod Lleol i gyflawni ei ddyletswydd statudol o dan ddeddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru, a chydnabu ei fod yn faes a oedd wedi gweld cynnydd sylweddol o ran galw a chymhlethdod.

Pwysleisiodd yr Aelod o'r Cabinet na fyddai'r cynigion yn cyfateb i ostyngiad yn y gwasanaeth ond, yn hytrach, byddai tua £424,000 ychwanegol o fuddsoddiad yn y gwasanaeth. Serch hynny, roedd yr Aelod o'r Cabinet yn cydnabod y byddai'r newidiadau yn effeithio ar nifer fach o ddisgyblion pe bydden nhw'n cael eu cymeradwyo.

Lleisiodd yr Aelod o'r Cabinet ei gefnogaeth i'r cynigion a chroesawodd sefydlu'r ddau ddosbarth cymorth dysgu fesul cam Cynradd Cymraeg yn yr Ysgol Gymraeg newydd yn Rhydfelen ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; a theimlai y byddai hyn yn cynnig rhagor o ddewis i rieni a gwarcheidwaid.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Ystyried yr wybodaeth yn yr adroddiad a'r Adroddiad Gwrthwynebiad yn Atodiad 1, sy'n cynnwys manylion y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod yr Hysbysiad Statudol, a'r sylwadau a roddwyd mewn ymateb i'r gwrthwynebiadau.

2. Gweithredu'r cynigion fel y maen nhw wedi'u cyhoeddi yn yr Hysbysiadau Statudol, sef:

   **Cynnig 1:** Symud y dosbarth cynnal dysgu Arsylwi ac Asesu yn Ysgol Gynradd Penrhiwceibr i Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon. Daw hyn i rym o 1 Medi 2024.

   **Cynnig 2:** Trosglwyddo'r dosbarth cynnal dysgu ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 3-6 ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd yn Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn, i ddod i rym o fis Medi 2024.

   **Cynnig 3:** Sefydlu un dosbarth cynnal dysgu (Asesu ac Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i ddod i rym o fis Ebrill 2024.

   **Cynnig 4:** Sefydlu dau ddosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg Cyfnod Cynradd yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen (YGG Awel Taf) ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol, i ddod i rym o fis Medi 2024.

**Cynnig 5:** Sefydlu un dosbarth cynnal dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7-11 ag ASA yn yr ysgol 3-16 oed newydd ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen (Ysgol Afon Wen), i ddod i rym o fis Medi 2024.

3. Cyhoeddi'r Hysbysiadau Penderfyniad perthnasol mewn perthynas ag unrhyw gynigion a ddatblygir fel sy'n ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

**87 Rhaglen Waith y Cabinet**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2023-24.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad ac roedd yn fodlon ar gynnwys Rhaglen Waith y Cabinet, gan nodi ei hyblygrwydd.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:
1. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-24 (gan ei haddasu'n briodol ar ôl yr angen) a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

**88 Strategaeth Canol Tref Aberdâr**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Materion Ffyniant a Datblygu'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet am yr ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol a gynhaliwyd ar Strategaeth Canol Tref Aberdâr fel y cytunwyd gan y Cabinet ar 28 Mehefin 2023, gan dynnu sylw at y newidiadau i'r ddogfen o ganlyniad i'r ymatebion a ddaeth i law. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet er mwyn mabwysiadu'r Strategaeth yn ffurfiol.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu fod y broses a ddilynwyd yn enghraifft gadarnhaol o waith cyn-ymgysylltu a diolchodd i'r swyddogion am eu hymrwymiad. Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet y cynigion ac roedd yn falch o nodi bod y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid y cynlluniau ar gyfer canol tref Aberdâr.

Roedd y Dirprwy Arweinydd hefyd yn cefnogi’r argymhellion yn yr adroddiad ac yn falch o nodi y byddai’r ddogfen yn cael ei hatgyfnerthu yn dilyn y broses ymgynghori drylwyr.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:
1. Trafod canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori ffurfiol a gynhaliwyd mewn perthynas â Strategaeth ddrafft Canol Tref Aberdâr a dogfennau ategol;
2. Adolygu a chymeradwyo'r ystod o ddiwygiadau a wnaed i'r Strategaeth ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad ffurfiol;
3. Cymeradwyo Strategaeth derfynol Canol Tref Aberdâr a chefnogi

datblygiad prosiectau o dan y 'themâu buddsoddi' sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth.

## 89 Strategaeth Rheoli Risg

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cyllid a Gwasanaethau Gwella Strategaeth Rheoli Risg wedi'i diweddaru'r Cyngor i'w hystyried gan Aelodau'r Cabinet.

Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet bod Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, gyda'r fersiwn diweddaraf wedi'i gytuno gan Gabinet y Cyngor ym mis Gorffennaf 2022, fel y'i gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol gymeradwyaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o'r Strategaeth Rheoli Risg.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn fodlon bod y Strategaeth sydd gerbron yr Aelodau yn sicrhau bod trefniadau rheoli risg y Cyngor yn parhau i fod yn addas i'r diben. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet yn gadarnhaol am y pecyn cymorth, a ddyfeisiwyd i gynorthwyo rheolwyr wrth reoli risg, ac a oedd wedi profi i fod yn ased dda.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo'r diweddariad i Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor, fel y’i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 12 Hydref 2023.

## 90 Adborth Rhag-graffu Pwyllgorau

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu adborth a sylwadau mewn perthynas â'r eitemau y rhag-graffwyd arnyn nhw gan Bwyllgorau Craffu thematig y Cyngor yn dilyn cylch cyfarfodydd diweddaraf y Pwyllgorau.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylw’r Aelodau at adran 5 o’r adroddiad, a oedd yn amlinellu’r eitemau canlynol a oedd wedi’u rhag-graffu yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgorau:

- Cynnig i ddatgan Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yn 2024 – Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned; a
- Gwasanaethau Oriau Dydd i Bobl Hŷn - Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned.

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r Pwyllgor Craffu am y sylwadau a'r adborth, a chroesawodd ymgysylltiad adeiladol Aelodau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r ddwy eitem nesaf o fusnes.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi sylwadau'r Pwyllgorau Craffu yn dilyn rhag-graffu ar yr eitemau a restrir yn adran 5 o'r adroddiad.

**91 Gwasanaethau Oriau Dydd i Bobl Hŷn**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol argymhellion mewn perthynas â darpariaeth Gwasanaethau Oriau Dydd y Cyngor i bobl hŷn yn y dyfodol.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad cynhwysfawr a diolchodd i'r Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned am ei sylwadau.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar y cyfle i bwysleisio bod rhesymeg gref y tu ôl i'r newidiadau arfaethedig, a dywedodd y byddai'r cynigion yn dod â buddion cadarnhaol i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Nododd yr Aelod o'r Cabinet nad oedd y rhan fwyaf o gleientiaid yn dod o ardaloedd penodol.

Cyn i'r siaradwyr gael eu cyflwyno, manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i siarad am ei hymweliad diweddar hi a'r Arweinydd â chyfleuster Gofal Ychwanegol Cwrt yr Orsaf ym Mhontypridd, yn dilyn pryderon a godwyd. Soniodd y Dirprwy Arweinydd yn gadarnhaol am ei hymweliad a'r nifer helaeth o gyfleusterau modern sydd ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaeth, megis bwyty mawr, salon harddwch, ystafell sinema a gardd fawr. At hynny, cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at y cyfleusterau ehangach, sydd ar gael i ddefnyddwyr ym Mhontypridd, megis Parc Ynysangharad.

Gyda chytundeb yr Arweinydd, rhoddwyd caniatâd i'r Aelod canlynol, sydd ddim yn Aelod o'r Pwyllgor, annerch y Cabinet:

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Grehan

Gyda chytundeb yr Arweinydd, rhoddwyd caniatâd i'r cynrychiolydd canlynol ar ran Undeb Llafur annerch y Cabinet:

- Mr C Jones - GMB

*Noder: Cyn y cyfarfod, rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, ohebiaeth gan GMB i Aelodau'r Cabinet ei hystyried.*

Diolchodd yr Arweinydd i'r siaradwyr am eu cyfraniadau. O ran pryderon a godwyd ynghylch y mynediad a rennir i rai o'r cyfleusterau, siaradodd yr Arweinydd yn gadarnhaol am y gofod mawr a dywedodd fod ystafelloedd pwrpasol hefyd ar gael i gleientiaid. O ran y cyfleusterau, cadarnhaodd yr Arweinydd fod y dyluniad yn bodloni'r fanyleb ar gyfer y math yma o gyfleuster, ac eglurodd ei fod wedi'i ddylunio i fod yn gyfleuster defnydd a rennir sy'n darparu cymorth ar gyfer cleientiaid o fewn y cyfleuster a chleientiaid eraill. Cymerodd yr Arweinydd bryderon cynrychiolydd yr Undeb Llafur i ystyriaeth a dywedodd y byddai'n fodlon cwrdd y tu allan i'r cyfarfod i drafod materion ymhellach.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod Practice Solutions wedi'i gomisiynu i ddechrau cynnal adolygiad o'r model gwasanaethau oriau dydd a phreswyl, ac argymhellwyd bod model gwasanaeth newydd yn cael ei roi ar waith. Cydnabu'r Cyfarwyddwr fod sylwadau cadarnhaol wedi'u gwneud

mewn perthynas â Thonyrefail ond bod yr amgylchiadau wedi newid ers 2019. Siaradodd y Cyfarwyddwr am y pandemig, ond roedd hefyd yn cydnabod bod cyfleusterau wedi'u datblygu yng Nghwrt yr Orsaf ers hynny; ac roedd o'r farn y byddai'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth Tonyrefail.

O ran pryderon ynghylch y lle sydd ar gael, soniodd y Cyfarwyddwr am bwysigrwydd cymdeithasoli ac integreiddio unigolion, a dywedodd y byddai'r cyfleuster yn rhoi cyfle iddynt integreiddio ag unigolion eraill sydd, yn aml, gyda'r un lefel o anghenion.

O ran pryderon a godwyd ynghylch y cyfleusterau ystafell wlyb, dywedodd y Cyfarwyddwr fod teclyn codi nenfwd pwrpasol ar gael yng Nghwrt yr Orsaf, nad oedd ar gael yng nghyfleuster Tonyrefail. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r ychwanegiad yn cefnogi unigolion sydd angen rhagor o gymorth o ran hygyrchedd. Cydnabuwyd bod llai o gyfleusterau toiledau o fewn Cwrt Yr Orsaf, ond ar sail anghenion unigolion, roedd y Cyfarwyddwr yn hyderus y byddai'r cyfleuster yn diwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr bwysigrwydd sicrhau urddas a gofal i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r cyfleuster.

O ran pryderon a godwyd ynghylch y lifft, nid oedd y Cyfarwyddwr yn credu bod hyn yn rhwystr i ddefnyddwyr y gwasanaeth, a theimlai fod yr adeilad yn addas i'r diben.

O ran pryderon a godwyd ynghylch trafnidiaeth, nododd y Cyfarwyddwr y byddai tua 42% o unigolion yn treulio llai o amser yn teithio. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau y byddai pob llwybr yn cael ei ystyried i sicrhau bod unigolion yn treulio cyn lleied o amser â phosibl ar drafnidiaeth gyhoeddus, ond aeth ati i gydnabod bod llawer o unigolion yn mwynhau'r daith.

Eglurodd yr Arweinydd, er y byddai gan 42% o unigolion siwrnai fyrrach o ganlyniad i’r cynigion, y byddai’r siwrneiau yn sylweddol fyrrach, ond i’r unigolion hynny sydd â siwrneiau hirach o ganlyniad i’r cynigion, ni fyddai’r siwrneiau yn sylweddol hirach o ran amser. Teimlai'r Arweinydd, o ran trafnidiaeth, fod y cynigion yn gytbwys.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r holl gyfranogwyr am eu sylwadau. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod gostyngiad wedi bod yn y defnydd o wasanaethau traddodiadol ers y pandemig, a chredai y byddai’r gosodiadau modern yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddefnyddwyr y gwasanaeth, heb golli unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth. Teimlai’r Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol y byddai’r cynigion a oedd gerbron yr Aelodau yn helpu i fynd i’r afael ag unigrwydd ac yn cefnogi iechyd a lles unigolion yn well.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Ystyried yr wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg;
2. Cymeradwyo cyfuno Canolfan Oriau Dydd Trecynon a Chanolfan Oriau Dydd Cwmni Dda erbyn mis Mawrth 2024, fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 5.2 yr adroddiad; a
3. Cymeradwyo trosglwyddo’r ddarpariaeth gwasanaeth oriau dydd a ddarperir o Ganolfan Oriau Dydd Tonyrefail fesul cam i Ofal Ychwanegol Cwrt yr Orsaf ym Mhontypridd erbyn mis Mawrth 2024, fel sydd wedi'i

nodi ym mharagraff 5.6 yr adroddiad.

## 92 Cynnig i ddatgan Cynllun Trwyddedu ychwanegol newydd ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yn 2024

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio adroddiad sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am effeithiolrwydd Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth 2019, a chynnig bod y Cyngor yn datgan Cynllun Trwyddedu Ychwanegol newydd ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth o fis Ebrill 2024, yn unol â darpariaethau Deddf Tai 2004.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau ar y cyfle i ddiolch i swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr; a nododd weithrediad llwyddiannus dau argymhelliad a wnaed yn ystod yr adolygiad diwethaf i adolygu'r cynllun gweinyddu ac i gyflymu'r broses ymgeisio; mae'r ddau ohonynt yn gweithio i greu system drwyddedu fwy effeithlon.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn hyderus bod y cynllun trwyddedu ychwanegol yn ogystal â'r cynllun trwyddedu gorfodol wedi gweithio'n rhagweithiol dros y blynyddoedd i reoleiddio Tai Amlfeddiannaeth yn Rhondda Cynon Taf, a'i fod wedi bod yn hanfodol i sicrhau bod preswylwyr yn ddiogel ac i leihau effaith tai a rennir. Nododd yr Aelod o'r Cabinet hefyd fod y Cynlluniau yn caniatáu i'r Cyngor weithio gyda landlordiaid a gweithredu pan fo angen ar gyfer y rhai nad ydynt yn cydymffurfio.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet i'r Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned am ei gyfraniad a chytunodd â'i argymhelliad i gynnwys amod diogelwch tân ychwanegol i gyd-fynd â Deddf Diogelwch Adeiladau 2022.

Ategodd y Dirprwy Arweinydd sylwadau'r Aelod o'r Cabinet ac roedd yn gefnogol o'r cynnig. Croesawodd y Dirprwy Arweinydd gyfathrebu pellach gyda'r Brifysgol, i ddiogelu lles y bobl ifanc sy'n defnyddio Tai Amlfeddiannaeth at ddibenion addysgol.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi canfyddiadau'r Gwerthusiad o Gynllun Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth Ychwanegol 2019 yn Rhondda Cynon Taf a'r adborth gan y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2023;
2. Cymeradwyo datganiad Cynllun Trwyddedu Ychwanegol Newydd ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yn Rhondda Cynon Taf, i ddod i rym pan ddaw'r cynllun presennol i ben ar 31 Mawrth 2024, a chyfarwyddo swyddogion i wneud y trefniadau angenrheidiol yn unol â darpariaethau Deddf Tai 2004;
3. Cymeradwyo parhau i gynnwys pob math o dai amlfeddiannaeth o fewn cwmpas Cynllun newydd 2024;
4. Cymeradwyo'r amodau trwyddedu safonol i'w gosod ar yr holl drwyddedau tai amlfeddiannaeth a roddir gan y Cyngor o dan y Cynllun Trwyddedu Gorfodol, a'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol newydd o fis Ebrill 2024 (yn ogystal ag unrhyw amodau pwrpasol sy'n berthnasol i drwyddedau unigol); a
5. Cymeradwyo'r strwythur ffioedd arfaethedig fel y manylir arno yn Atodiad 4 yr adroddiad.

**93** **Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad**

**PENDERFYNWYD:** “Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

**94** **Gwasanaeth Archwilio Mewnol**

Ar ôl ystyried adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a’r Cyfarwyddwr Cyfadran, Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen, sy’n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 (fel y’i diwygiwyd), sef gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno), **PENDERFYNWYD** gweithredu'r ffordd ymlaen arfaethedig ar gyfer trefniadau yn y dyfodol ar gyfer darparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 pm**

**Y Cynghorydd A Morgan**
**Cadeirydd.**